

Rhybudd Cosb Benodedig

ABSENOLDEB HEB EI AWDURDODI

Yn berthnasol i

Oed Ysgol Statudol o 5ed Pen-blwydd y Plentyn

Beth fydd yn digwydd os bydd yr absenoldeb yn un heb ei awdurdodi?

- Bydd yr ysgol yn penderfynu a ddylid rhoi Rhybudd Cosb Benodedig. Os yw'r ysgol yn penderfynu y dylid rhoi Rhybudd Cosb Benodedig
- Byddwch yn derbyn llythyr gan yr ysgol yn rhoi gwybod bod y mater wedi cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Lleol ac y gallai Rhybudd Cosb Benodedig gael ei roi:
- Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol fod angen rhoi Rhybudd Cosb Benodedig
- Fe anfonir Rhybudd Cosb Benodedig atoch, ynghyd â llythyr esboniadol, mae'r Rhybudd yn rhoi'r cyfle i chi dalu'r ddirwy yn hytrach na chael eich erlyn yn y llysoedd

Cosbau am absenoldeb heb awdurdod

Llinell Amser	Un Plentyn	Dau Blentyn
Talwyd o fewn 28 diwrnod	£60 y rhiant	£60 y plentyn = £120 y rhiant
Ar ôl 28 diwrnod a chyn 42 diwrnod	£120 y rhiant	£120 y plentyn = £240 y rhiant
Ar ôl 42 diwrnod	Byddwch yn derbyn gwŷs i ymddangos o flaen Llys Ynadon ar y sail eich bod wedi methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd eich plentyn yn yr ysgol	Byddwch yn derbyn gwŷs i ymddangos o flaen Llys Ynadon ar y sail eich bod wedi methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd eich plentyn yn yr ysgol



**Ni dderbynnir taliadau ar ôl 42 diwrnod, ac ni ellir talu'n rhannol
neu mewn rhan-daliadau**

**Gall pob ysgol roi rhif cyswllt y Gwasanaeth Gwaith
Cymdeithasol Addysg i chi os hoffech chi drafod y mater hwn
ymhellach:**

Ceir manylion am Rhybudd Cosb Benodedig ar ein Gwefan

www.denbighshire.gov.uk

**Mae taflenni eraill ar gael gan yr ysgol lle mae eich plentyn
wedi'i ch/gofrestru, neu gan y Gwasanaethau Addysg**

- **Helpu eich "Presenoldeb Ysgol"**
- **Cymru Plant ar Wyliau yn ystod y Tymor**

***Mae'r term "rhiant", mewn perthynas â phlentyn neu berson
ifanc, yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond
sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn.***